# Porthi i'r Safonau Organig

## Egwyddorion Cyffredinol

Mae iechyd a budd eich anifeiliaid yn dibynnu ar faetheg cywir, yn cael ei ddarparu mewn dognau cytbwys, trwy gydol oes yr anifail. Prif fwriad porthiant yw diogelu safon o fywyd nid cynhyrchiant I'r eithaf, a gofalu bod anghenion yr anifeiliaid yn cael eu digoni trwy bob cyfnod tyfiant. Dyma'r safonau sydd mewn grym:

- Rhaid defnyddio bwyd 100% organig i anifeiliaid organig a'r rhai sy'n trosi, lle'n bosib (gweler nodiadau isod ar ddefnyddio bwyd nad yw'n organig)
- Rhaid bwydo 60% o'r porthiant i anifeiliaid sy'n cnoi cil sydd yn borfa ffres neu wedi ei gynaeafu fel silwair neu gwair.
- Rhaid cynhyrchu cymaint ag sydd bosib o'r porthiant ar eich fferm eich hun. Yr isaf ganran yw 50% o borthiant llysysorion o'ch daliad neu daliad cysylltiedig (60% i llysysorion aelodau'r Soil Association)
- Os ydych wrthi'n trosi, gall i fyny at 30% o'r cyfanswm fod yn borthiant sydd o'r cyfnod trosi (i fyny hyd at 60% os daw y porthiant o'ch daliad eich hun). Rhaid bod o leiaf 60% o'r dogn yn llawn organig (ond os ydych yn defnyddio eich porthiant eich hun o dir sydd yn y cyfnod trosi, gall hwn ostwng i 40%)
- Rhaid cadw cofnodion llawn a chywir o'r hyn yr ydych yn porthi eich anifeiliaid, gan gynnwys:
    - Y cynhwysion a ddefnyddir, eu tarddiad, ac os ydynt yn organig, ddim yn organig, neu o'r cyfnod trosi.
    - Maint y cynhwysion yn y ddogn cyflawn (mesur sych; DM)
    - Pryd eu porthwyd
    - Cyfanswm y MS a fwytawyd

## Defnyddio bwydydd nad ydynt yn gwbl organig

Pan na fyddwch yn abl i ddod o hyd i borthiant organig, gallwch ofyn am ganiatâd (yn aml gelwid hwn yn rhanddirymiad) i ddefnyddio rhywfaint o ddefnydd nad sy'n organig (i fyny at 5% ar gyfer llysysorion a 15% ar gyfer moch a dofednod dros gyfnod o flwyddyn ac hyd at 25% yn ddyddiol). Rhaid serch hynny, nodi hyn:

- Cyn defnyddio bwyd nad yw'n organig, rhaid eich bod yn gallu profi eich bod wedi chwilio am gynhwysion organig ond nad oes cynhwysyn organig ar gael.
- Mae gennych hawl i ddefnyddio cynhwysion nad ydynt yn organig o'r 'rhestr werdd' (gweler Tabl 1) heb ofyn am ganiatâd, ond rhaid dangos tystiolaeth ysgrifenedig paham yr oedd angen gwneud hynny adeg eich arolwg
- Os oes angen defnyddio cynhwysion caniatedig nad sy'n organig, rhaid derbyn caniatâd oddi wrth eich Corff Tystysgrifo CYN eu prynu. Ystyrir fod cyflenwad digonol o'r cynhwysion hyn, neu rhai amgen ar gael, felly eithriad bydd caniatáu rhanddirymiadau.
- Rhaid i'r Melinwyr gydymffurfio gyda'r un rheolau os yn defnyddio cynhwysion nad sy'n organig os na ellir caffael cynhwysion organig. Gellir prynu bwydydd cymeradwy sy'n cynnwys nifer fechan o gynhwysion nad sy'n organig ond rhaid gofalu nas tramgwyddir y lwfans blynyddol.
- Rhaid cofnodi natur a maint yr holl fwyd nad yw'n organig a ddefnyddiwyd, gan gynnwys yr elfen nad yw'n organig mewn dwysfwyd y Melinwyr.
- Mae'r rhanddirymiad llysysorion ond yn parhau tan 31ain Rhagfyr 2007 ac wedi hynny rhaid defnyddio porthiant 100% organig.


*Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru, Sefydliad Astudiaethau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion SA23 3AL. Ffon 01970 622248*
*Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.*

- Mae'r rhanddirymiad ar gyfer moch a dofednod yn gostwng fel a ganlyn: 15% hyd at 31ain Rhagfyr 2007, 10% o 1af Ionawr 2008 tan 31ain Rhagfyr 2009, 5% o 1af Ionawr 2010 tan 31ain Rhagfyr 2011.

**Tabl 1:** ***Y 'Rhestr werdd'***

| | |
|---|---|
| **Ffynonellau Protein** | Blawd y Paith; Blawd Glaswellt; Protein Tatws; Gwenithfwyd; Pysgod a'u sgil gynhyrchion; Grawn Bragwyr, Allyrryn hadau Rape; Allyrryn hadau Blodau'r Haul; Maglys; Hadau Bysedd y Blaidd; Pys fel hadau; Ffa fel hadau; Wyau a chynyrchion wyau. |
| **Eraill** | Pwlp Betys Siwgwr; Triogl ; Powdwr ac echynau planhigion; Llaeth a chynhyrchion llaeth (llaeth lloi bach nad yw'n organig); Blawd Gwymon; Sbeisis a sawrlysiau; Olew llysieuol(echdynnu trwy wasgu) |

## Ychwanegu at porthiant anifeiliaid

- Cewch ddefnyddio ambell ychwanegyn heb ofyn caniatâd (gweler Tabl 2 am fanylion)
- Cewch ychwanegu yr elfennau hybryn canlynol: haearn, Iodin, Cobalt, Copr, Manganis, Molebdenwm, Seleniwm. Rhaid, serch hynny cyfiawnhau eu defnydd naill ai gyda prawf pridd, porthiant, gwaed, neu cofnodion blaenorol sydd yn profi fod yna brinder.
- Os mae ond yn cynnwys y mwynau a rhestrir uchod, cewch ddefnyddio blociau mwynau, pigiadau neu bolws mwynau, a mwynau heb eu celedio wedi eu cymysgu yn y bwyd.

***Tabl 2: Ychwanegion ceir eu defnyddio heb ganiatâd***

| Elfen | Cyfansawdd/ Ffurf |
|---|---|
| **Amrywiol** | Berem Bragwyr, Olew iau penfras |
| **Sodiwm** | Halen môr anghoeth, halen craig cwrs, sylffad sodiwm , carbonad sodiwm , deucarbonad sodiwm , clorid sodiwm |
| **Potasiwm** | Potasiwm clorid |
| **Calsiwm** | Lithothamnion a gwymonau coch calcheiddiedig, cregyn anifeiliaid dŵr, esgyrn môr-gyllyll, carbonad calsiwm , lactad calsiwm , glwconad calsiwm . |
| **Ffosfforws** | Ffosffad deucalsiwm diffliworineiddiedig , ffosffad monocalsiwm diffliworineiddiedig. |
| **Magnesiwm** | magnesit calchynedig, sylffad magnesiwm, clorid magnesiwm , carbonad magnesiwm . |
| **Swlffwr** | Sylffad sodiwm |

## Porthi anifeiliaid ifanc

- Rhaid porthi mamolion ifanc ar laeth (y fam yn ddelfrydol) am gyfnod sydd o leiaf yn: 3 mis i wartheg, 45 diwrnod i wyn, a 40 niwrnod i foch.
- Yn ystod hanner cyntaf y cyfnod hwn, rhaid eu porthi ar cyfanlaeth organig, o'r deth yn ddelfrydol. Gellir defnyddio llaeth nad yw'n organig, neu llaeth powdwr yn ystod gweddill y cyfnod.
- Ni chaniateir i laeth powdwr gynnwys atchwanegion megis gwrthfiotigau hyrwyddwyr tyfiant, neu braster anifeiliaid.
- Rhaid gwneud defnydd llawn o borfa ar ôl diddyfnu. Dylai'r porthiant gynnwys o leiaf 60% o borfa ffres, gwair neu silwair.


*Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru, Sefydliad Astudiaethau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion SA23 3AL. Ffon 01970 622248*
*Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.*